| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 1 MAWRTH 2012 |
| **TEITL** | PARCIO I BRESWYLWYR |
| **PWRPAS** | YMATEB I RYBUDD O GYNNIG |
| **ADRODDIAD GAN** | ALED DAVIES - PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Y CYNGHORYDD W GARETH ROBERTS, UWCH ARWEINYDD PORTFFOLIO - AMGYLCHEDD |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynwyd rhybudd o gynnig ar y mater yma i'r Cyngor ar 20 Mai, 2011. Penderfynodd y Cyngor gyfeirio'r cynnig i'w ystyried gan Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd fel rhan o'u bwriad i ystyried Cynlluniau Parcio i Breswylwyr yn eu cyfanrwydd.

1.2 Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Adran Rheoleiddio ar y cynlluniau Parcio i Breswylwyr i Bwyllgor yr Amgylchedd ar 15 Mehefin, 2011. Penderfynodd y Pwyllgor eu bod yn gyffredinol yn fodlon gyda'r trefniadau ond eu bod yn awyddus i'r Gweithgor Parcio wneud mwy o waith ar y materion a gyfeiriwyd atynt yn y rhybudd o gynnig a chostau'r tocynnau parcio sydd yn gysylltiedig gyda'r cynlluniau.

1.3 Cyfarfu'r Gweithgor Parcio ar 20 Rhagfyr, 2011 pan gyflwynwyd gwybodaeth fanwl ar achosion busnes safleoedd gafodd eu hystyried ar gyfer sefydlu cynlluniau parcio i breswylwyr.

1.4 Cyflwynwyd adroddiad pellach, yn crynhoi casgliadau'r Gweithgor i Bwyllgor yr Amgylchedd ar 26 Ionawr, 2012.

## 2. TRAFODAETHAU PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD

2.1 Nododd y Pwyllgor bod rhai ardaloedd wedi ymwrthod a'r cynllun gan ddweud mai cost oedd un o'r rhesyma. Er hyn roedd yn ymddangos fod y model ariannol cyfredol ar gyfer cynlluniau parcio i breswylwyr yn gweithio yn dda a bod y cyfle i ystyried yr opsiynau o osod ffioedd ar lefelau gwahanol wedi bod yn werthfawr cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y mater.

2.2 Nodwyd bod gan bob cynllun parcio i breswylwyr gostau unwaith ac am byth yn gysylltiedig ag ef, yn ogystal â chostau refeniw parhaus o ran gorfodaeth a gweinyddu.

2.3 Cydnabu'r Pwyllgor mae darpariaeth ddewisol yw cynlluniau parcio i breswylwyr ac yn yr hinsawdd ariannol bresennol roedd y Pwyllgor yn cytuno a barn y

Gweithgor ei bod yn anodd cyfiawnhau gwariant ychwanegol ar gynlluniau dewisol yn enwedig lle gallant gael effaith andwyol ar ddarpariaeth gwasanaethau presennol.

2.4 Wedi ystyried yr opsiynau o godi ffioedd is am y tocynnau parcio ac effaith posib gweithredu yr opsiynau, 'roedd y Gweithgor yn derbyn nad oedd trigolion yn hoffi talu am docynnau tymor. Ond, 'roedd y Gweithgor o'r farn bod pris sy'n cyfateb i £1 yr wythnos ar gyfer y cerbyd cyntaf a £1.50 yr wythnos am ail gerbyd yn brisiau rhesymol iawn am y gwasanaeth, yn enwedig yn y cyd-destun nad oedd y lefelau ffi yma yn talu holl gostau'r cynlluniau ac o fewn y cyd-destun ariannol y mae'r Cyngor yn ei wynebu ar hyn o bryd.

2.5 Argymhelliad y Gweithgor oedd na ddylid gostwng prisiau'r tocynnau.

2.6 Clywodd y Pwyllgor bod y cynllun hwn yn gweithio yn dda mewn strydoedd yn Nolgellau a bod y preswylwyr ar aelod lleol yn ddiolchgar bod y Cyngor wedi llwyddo i weithredu cynllun oedd yn cyfrannu at oresgyn problemau yn y lleoliad penodol hwnnw.

## 3. CASGLIADAU

3.1 Wedi ystyried yr holl dystiolaeth o blaid ac yn erbyn, penderfynodd Pwyllgor yr Amgylchedd i dderbyn argymhelliad y Gweithgor Rheoli Parcio na ddylid gostwng prisiau tocynnau parcio i breswylwyr a nodi y byddai'r ffioedd yn ddarostyngedig i adolygiadau blynyddol yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor.